Tafod Elái

Chwefror 1993 **Pris 25 c** **Rhif 74**

TAITH I WELD SIÔN CORN

Pythefnos cyn y Nadolig fe fues i'n ffodus iawn i ymweld â Siôn Corn yn ei wlad ei hun. Roeddwn wedi ysgrifennu at raglen Mici Plwm "Fe hoffwn i" yn gofyn os gawn fynd i Wlad y Lap. Roeddwn i wrth fy modd pan glywais fy mod yn cael gwireddu fy mreuddwyd.

Danfonais lythyr at Siôn Corn o'r ysgol fel nifer o'm ffrindiau. Ar y 6ed o Ragfyr fe es i ar fws i Lundain gyda fy athrawes, Miss Roberts. Yno mewn gwesty moethus cwrddais â'r criw ffilmio a Gaenor o Hafoc. Arhosom yno ar y nos Sul a hedfan o Heathrow bore Llun. Doeddwn i erioed wedi hedfan o'r blaen. Roedd yn brofiad gwych. Cefais fynd i weld y peilot yn ei gaban hefyd. Cyrhaeddom Rovaniemi, sef prif ddinas gwlad y Lap, am 5.30. Wrth i ni gerdded oddi ar yr awyren roedd hi'n bwrw eira'n drwm. Cawsom fws i'r gwesty.

Dydd Mawrth a Mercher buom yn brysur yn ffilmio. Cefais fynd ar skidoo, sef beic modur eira a theithiais ar sled tu ôl i garw - ond nid Rudolff! Aethom i fferm geirw ac i'r Swyddfa Bost. Cefais gyfarfod a Siôn Corn yn ei fwthyn. Uchafbwynt y daith oedd dod o hyd i fy llythyr i at Siôn Corn yng nghanol miloedd o lythyrau eraill. Cefais gymaint o sioc fel fy mod wedi cwympo oddi ar y gadair. Roeddwn i'n drist iawn wrth adael gwlad Siôn Corn ac wrth ffarwelio â'r criw ffilmio yn Heathrow. Cefais amser bendigedig ac un na fyddaf yn ei anghofio.

Daniel Marshman (7 oed)
Ysgol Evan James.

TU MEWN

3 Bil Ffôn
4 Iolo Morgannwg
10 Tudalen yr Ysgol
12 Tudalen y Plant
15 Codi Cwr y Llen
16 Cymdeithas Llantrisant
18 Holi'r Papur
19 Ad-lib
20 Snichod

GWYRDD

Gwyrdd,
Gwyrdd,
Gwyrdd,
Gwyrdd y gwanwyn
Geni'r bywyd newydd.

Harddwch! Ffresni!
Dail yn blaguro
Ar ôl noethni llwm y gaeaf.
A'r lili wen yn
Ymwthio'n ddewr yn llawn gobaith.
Gobaith y flwyddyn newydd!
Gobaith y dyfodol.

Gwyrdd,
Gwyrdd,
Gwyrdd,
Yn gweithio'n ddiwyd
I sicrhau ein dyfodol
Ac ymbilio am Heddwch

Heddwch i fwynhau y gwyrdd
o'n cwmpas.

Ruth Hicks
Ysgol Gyfun Llanhari.

FE HOFFWN I

Ar S4C dros y Nadolig gwelwyd Daniel Marshman o Drefforest ar y rhaglen boblogaidd Fe Hoffwn I.

Ysgrifennodd Daniel, 7 oed a disgybl yn Ysgol Evan James at Mici Plwm yn dweud y carai'n fawr gyfarfod â Siôn Corn. Mi drefnodd Mici y cwbwl iddo, fe aeth yr holl ffordd i chwilio am Siôn Corn i Gwlad y Lap yn y Ffindir, ac yno y cafodd y fraint a'r cyfle arbennig i roi ei lythyr yn bersonol i'r dyn ei hun!

Mae Cwmni'r Castell sy'n gyfrifol am y gyfres, wrthi'n brysur ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer trydydd gyfres o **Fe Hoffwn I** ac os yr hoffech chi i Mici wireddu eich breuddwyd neu eich dymuniad arbennig chi, yna ysgrifennwch ar frys at:
Mici Plwm, Cwmni'r Castell,
12 Ffordd Carlton.
Bae Colwyn. Clwyd.

Tafod Elái

Do, bu'r apêl i brynu argraffydd newydd er mwyn gwella rhywfaint ar ddiwyg Tafod Elái yn llwyddiant. A thros y Nadolig fe gyrhaeddodd y printer newydd. Diolch i bawb â gyfrannodd i'r apêl yn arbennig i'r tri rhodd sylweddol ddaeth o Gynghorau Bro'r ardal a TAC.

Gobeithio y gwelwch wahaniaeth ac o bosib gwellhad yn y diwyg. Mae'r Bwrdd Golygyddol o hyd yn barod i ystyried syniadau newydd a hyd yn oed gwrando ar feirniadaeth. Y prif nod yw sicrhau fod ein papur bro yn adlewyrchu bywyd Cymraeg yr ardal ac yn hwb i gynyddu'r defnydd o'n iaith.



CRONFA'R ARGRAFFYDD LASER

Diolch arbennig i:
Teledwyr Annibynnol Cymru Cyf,
Cyngor Bro Pentyrch.
Cyngor Bro Pontyclun.
Sulyn Roberts. David Knight.
Ambrose Williams.
Gwilym Roberts.

Tafod Elái

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1af o Fawrth
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
14 Chwefror 1993

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF4 8TG
Ffôn: 0222 890040

Cyhoeddir **Tafod Elái** gan
y Bwrdd Golygyddol
gyda chefnogaeth ariannol
Cymdeithas Celfyddydau
De-Ddwyrain Cymru a'r
Swyddfa Gymreig.
Argraffwyd gan
Gwmni Three Arch Press.

DR WILLIAM PRICE

Ni ddylid gadael i ddiwrnod pwysig yn hanes y fro fynd heibio heb sylw. Can mlynedd yn ôl i'r eleni bu farw'r Dr William Price yn 93 mlwydd oed. Fe'i fagwyd yn ardal Caerffili ac aeth i'r Coleg Meddygol yn 1820. Bu'n feddyg yn ardal Nantgarw a Phontypridd ond fe ddaeth yn enwog fel archdderwydd a arferai ddefodau hynafol ar y Garreg Siglo ar gomin Pontypridd. Gwisgai yn od - hugan wen, a than honno wasgod ysgarlad a llodrau gwyrdd; am ei ben gwisgai glamp o groen llwynog. Dywedir ei fod yn credu mewn 'cariad rhydd'; yr oedd yn credu y dylid llosgi ac nid claddu'r meirw; bwytâi lysiau - nid cig.

Cyhuddwyd ef o geisio llosgi corff marw ei fab 'Iesu Grist' a chanlyniad yr achos nodedig oedd dyfarnu bod-corff-losgiad yn gyfreithiol. Bu farw ar 23 Ionawr 1893 yn Llantrisant allosgwyd ei gorff yn unol â chyfarwyddiadau manwl a phendant a adawodd.

GOLYGYDD
Penri Williams Pentyrch 890040

NEWYDDION LLEOL
Sian Jones 0443 204565
ERTHYGLAU
Anna Jones Pontypridd 404697
LLUNIAU
D. J. Davies
Tonyrefail 671327
HYSBYSEBION
David Knight Pentyrch 891353
DOSBARTHU
Silyn Roberts 0443 207562
TRYSORYDD
Elgan Lloyd Radur 842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams Pentyrch 890979
YSGRIFENNYDD
Gill Rees Pentyrch 890571
PWYLLGOR
Rhys Llywelyn
Rhys Dafis

CLWB CERDDED CYMRAEG TAF ELÁI

Taith Nesaf:

2.30 p.m. Dydd Sul, Chwefror 21

Ble:

Craig yr Allt, tua 3 milltir.

Cwrdd:

Troad cyntaf ar y dde ar ffordd Caerffiili ar ôl gadael yr A470 yn Nantgarw.

Manylion Pellach:

0222-891353.

TAC

DYSGWYR YN OHEBWYR LLEOL

Bydd Penri'r Golygydd bob amser yn sôn am y gohebwyr lleol fel 'asgwrn cefn' ein paur bro ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r gohebwyr yn y gwahanol ardaloedd am eu cyfraniadau misol i Tafod Elái. Ambell dro bydd angen gohebydd newydd mewn ambell ardal ac mae dod o hyd i ohebydd lleol ymysg Cymry Cymraeg yr ardal fel chwilio am aur!!

Pleser mawr i mi felly oedd darganfod tair dysgwraig oedd yn barod i ddanfon newyddion am eu hardaloedd yn achlysurol. Gohebydd lleol newydd Tonysguboriau yw Mrs Jane Griffiths, Ffôn 224702, a bydd Dr Mair Hopkins, Ffôn 225438 a Mrs Margaret Griffiths Ffôn 229301 yn danfon newyddion o ardal Pontyclun. Felly, chi bobl Pontyclun a Thonysguboriau cofiwch gysylltu â'n gohebwyr mewydd os oes gennych unrhyw newyddion.

Yn anffodus, ni lwyddwyd i ddarganfod unrhyw un oedd yn barod i wneud yr un gwaith yn Ynysybwl na Meisgyn. Os oes gennych chi ddiddordeb i wneud y gwaith neu os gwyddoch am unrhyw un yn eich ardal cysylltwch â Siân Jones Ffôn 0443 204565.

DIGWYDDIADUR

Nos Wener, Chwefror 5ed.
Hwyl cyn Gêm Lloegr yng Nghlwb y Bont.

Nos Fercher, 10 Chwefror
Merched y Wawr y Garth "Ar Saffari" gyda Hywel a Hilary Lewis yn Neuadd Pentyrch.

Bore Sadwrn, 20 Chwefror.
Arwerthiant Clirio'r Cypyrddau yn y Ganolfan Gymunedol, Tonysguboriau.

Dydd Sul, 21 Chwefror.
Taith Clwb Cerdded Taf Elái am 2.30p.m. Craig yr Allt o Nantgarw.

Nos Fercher, 24 Chwefror
Noson o Gemau, CYD Pontypridd yng Nghlwb y Bont.

Nos Iau, 25 Chwefror.
Shirley Valentine, drama Theatr Gorllewin Morgannwg yng Nghanolfan Gelf y Miwni am 7.30 p.m.

Nos Wener, 26 Chwefror
Brethyn Cartref, Cymdeithas Gymraeg Llantrisant am 7.30 yn y Brunel, Pontyclun.

Nos Sadwrn, 27 Chwefror.
Cinio Gŵyl Ddewi Clwb y Dwrlyn gyda Hywel Teifi Edwards yn Neuadd Llechwen.

Nos Iau - Sadwrn, 11 - 13 Mawrth.
"Wyneb yn Wyneb", Dalier Sylw yn cyflwyno drama Michael Povey yn Theatr Chapter, Caerdydd.

Nos Fercher, 31 Mawrth.
Eisteddfod y Dysgwyr Morgannwg a Gwent yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, Treganna, Caerdydd.

Nos Wener, 2 Ebrill
Cystadleuaeth Grŵp Pop yn Ysgol Gyfun Rhydfelen.

GWYLIAU HAF
Carafan i'r teulu yng Ngei Newydd. Telerau arbennig.
Ffôn: 0222 891392.

GOFYNNWCH AM FIL FFÔN YN GYMRAEG

Mae B.T. - Telecom Prydain - yn bwriadu rhoi cyfle i bob un o'u cwsmeriaid yng Nghymru ofyn am gael eu biliau yn Gymraeg o hyn ymlaen.

Dros gyfnod o ryw dri mis o ganol Ionawr ymlaen bydd bil uniaith Saesneg (!) yn mynd i'w holl gwsmeriaid yng Nghymru. Bydd ffurflen efo'r bil yn rhoi cyfle i bawb sydd am gael y biliau yn Gymraeg o hynny ymlaen i wneud un o ddau beth:

a. Ffonio 0800 800 288 yn Gymraeg ac am ddim.
b. Rhoi enw a chyfeiriad yr un sydd am gael y biliau yn Gymraeg ar y ffurflen a'i phostio i'r cyfeiriad a roddir.

Er y byddai'n llawer gwell gan Cefn weld yr holl filiau yn ddwyieithog, mae'n bwysig bod pawb sy'n deall Cymraeg yn gofyn am y biliau yn Gymraeg. Hoffwn i bawb sy'n gweld y llythyr hwn i annog eu ffrindiau i wneud hyn ac i bob swyddog cymdeithas Gymraeg neu gymdeithas sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg i'w hannog hwythau i wneud yr un fath.

Yn gywir iawn, dros Gymru,

Dafydd Orwig.
Cadeirydd Cefn.

Cefn
Cefnogwyr y Gymraeg

YSGOL GYNRADD DOLAU

GALA NOFIO
Llongyfarchiadau gwresog i Nia Catrin Jones am ennill dwy wobr gyntaf yn rownd derfynol Gala Nofio'r Urdd eleni. Mae Nia'n ymarfer yn gyson ym mhwll nofio Caerffili ac yn haeddu llwyddo. Llongyfarchiadau Nia.

CYNGHERDDAU
Cyn y Nadolig cafwyd cyngherddau dymunol iawn yn dathlu Gŵyl y Geni. Bu'r Babanod yn dathlu stori'r Geni yn y ffordd draddodiadol.

Gwahoddwyd henoed yr ardal i berfformiad arbennig o gyngerdd yr adran Cynradd a mawr oedd eu gwerthfawrogiad o ymdrechion y plant. Thema'r gyngerdd oedd Y Meseia, a cafwyd hwyl yn gwisgo ac ail-adrodd Stori'r Geni mewn modd cyfoes a bywiog.

YMWELIADAU
Bu rhai o'r disgyblion ieuengaf yn ymweld â'r Mamothiaid yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Roeddent wrth eu bodd yn gweld y Mamothiaid mwyaf yn amddiffyn y rhai bach rhag y bleiddiaid. Er i un neu ddau ohonynt ddychryn cafwyd mwynhad mawr ar y cyfan.

ALCOHOL A CHYFFURIAU ERAILL

Annwyl Olygydd,
Mae'n wybodaeth cyffredinol bellach bod plant ifanc iawn yn ymhel â chyffuriau. Mae pethau'n gwaethygu o ddydd i ddydd led led Cymru. Hoffem drwy'r papurau bro roi gwahoddiad i bawb sy'n cynnal gweithgareddau gyda phlant o dan ddeuddeg oed anfon am ein llyfr gwaith newydd. Mae'r llyfrau yn delio a iechyd a pheryglon cyffuriau yn gyffredinol. Ein bwriad yw gweld dosbarthiadau hŷn ysgolion Cynradd yn defnyddio'r llyfr gan ei fod wedi ei gynllunio ar gyfer gweithgarwch mewn dosbarth. Mae tystysgrif ar gyfer pob plentyn wnaiff orffen y llyfr gwaith. Bydd ar gael o fis Ionawr ymlaen. Anfonwch at:-
GYNGOR CYMRU AR ALCOHOL A CHYFFURIAU ERAILL
112 Heol Albany,
CAERDYDD CF2 3RU

Yn gywir iawn,

D.E. Rees.

CYSTADLEUAETH IOLO MORGANWG

Blwyddyn 7: "GWYRDD".

Daeth 55 cynnig i law, a llawer ohonynt yn rhoi lluniau pert o ran lliwiau yn ogystal â geiriau. Os yw'r cerddi hyn yn adlewyrchu barn ein pobol ifanc am yr amgylchedd, yna mae gobaith o hyd i'r hen ddaear 'ma. Pan fydd Mr. Major a'i gabined yn darllen y rhifyn hwn o Tafod Elái, (fel sy'n digwydd bob mis), mi welwn ni gryfhau polisiau "gwyrdd" y llywodraeth, bid siwr, er mwyn ceisio denu pleidleisiau'r dyfodol. Dyma i chi enghreifftiau:

"Heb wyrdd, heb ddim,
Fydden ni ddim fan hyn..
"Heb goed, heb ddim,
Bydd dim ocsigen fan hyn.."
(Eleri Roberts, Y Cymer)

"Gwyrdd oedd lliw y clawdd a choed
Y cae wrth droed y Garth erioed..
Does dim o'r gwyrddni yno nawr..
Gyda'r adeiladau crand a mawr,
A'r concrid caled ar y llawr.."
(Catrin Rees, Llanhari)

"Gwrandewch ar yr amgylchfyd
Yn gweiddi am help.."
(Rachel Hathaway, Y Cymer)

"Tybed beth ddigwyddith nesaf?
Ai dal ymlaen gyda'r gwella?
Neu camu'n ôl i'r noethni?.."
(Bethan Eyres, Llanhari
yn sôn am Lyn Ebwy)

Mewn cystadleuaeth dda, a olygodd gryn grafu pen i'r ddau feirniad, dyma'u gosod yn y drefn ganlynol:

Cyntaf:	Ruth Hicks, Llanhari.
Ail:	Robert Jones, Cwm Rhymni.
Trydydd:	Donna Walsh, Rhydfelen.
	Ywain ap Rhys, Llanhari.

Ymysg y goreuon: Eleri Roberts, Nia Wyn Davies, Rachel Hathaway (Y Cymer), Catrin Rees, Bethan Eyres (Llanhari)

Oedran 14 - 19: "Crwydro"

Mentrodd 9 gan gadw'n bur dda rhag crwydro oddi wrth y testun! Cawsom gip ar sawl trempyn yn llusgo o le i le; rhai yn grwydriaid traddodiadol fel Jonni Twm:

"Yn cerdded y strydoedd tan hwyr y nos
A chysgu mewn bocs ar waelod y rhos.."
(Jamie Young, Glantaf)

eraill yn ddeiliaid cyfoes y ddinas bapur:

"Darn o bapur yn chwythu o stryd i stryd.."
(Nerys Jones, Glantaf)

yn chwilota ynghanol biniau sbwriel y strydoedd cefn:

"..fel boda ymysg y meirw
yn crafu cnawd.."
(Emma Price, Rhydfelen)

Prin yn anffodus yw llinellau gafaelgar fel y rhai uchod; cawn ambell fflach ym mhob cerdd, ond dyw'r batri awenyddol ddim yn medru cynnal y weledigaeth yn hir. Rydan ni'n agosach ati o gryn dipyn gyda Meril Williams, Rhydfelen a'i syniad gwreiddiol; baban bach yw'r crwydryn:

"..ar goll mewn coedwig o gyffro,
pob llais yn ddrysni
a phob cam yn un estron..
Y lolfa gysurus
fel jwngl unig, ofnus.."

agosach hefyd gydag Arwel Owen, Glantaf sy'n gweld hen ŵr yn dilyn ôl troed plentyndod ar hyd lan y môr ei gof. Crwydr y meddwl sydd gan Sarah Martin, Rhydfelen; meddwl un â baich y byd ar ei hysgwyddau:

"Neithiwr, wrth fagu fy nhristwch,
Fe grwydrais filltiroedd maith..
Crwydrais yn hir,
Gan ddychmygu
Bywyd heb boenau.."

Rhywle ar y daith, cafodd weledigaeth ac awydd i barhau:

"Cyrhaeddais rhyw heddwch..
Wrth grwydro yn hir yn fy mhen."

Da iawn Sarah. Byddai rhoi cip inni ar natur eich pryder a'ch poenau wedi cryfhau y gerdd addawol hon. Cerdd Beverley Frances Downes, Rhydfelen sy'n dod i'r brig. Mae rhyw symlrwydd aeddfed i'r modd y mae hi'n trafod person sy'n gwrthod ymddeol. Mae'r don yn ei cherdd yn cynrychioli egni a brwdfrydedd ieuenctid, a'r traeth (sy'n tawelu'r don) yn cynrychioli llonyddu a llesgedd henaint. Mae'n gerdd lawnach ag iddi fwy o sylwedd na'r gweddill, ac mae'n haeddu'r wobr gyntaf.

Cyntaf:	Beverley Frances Downes, Rhydfelen
Ail:	Sarah Martin, Rhydfelen
Trydydd:	Arwel Owen, Glantaf
	Meril Williams, Rhydfelen

TALWRN Y BEIRDD

Ar ddiwedd mis Ionawr darlledwyd rownd arall o Dalwrn y Beirdd o'r Ganolfan Gymraeg ym Merthyr Tudful. Y tro hwn roedd Tîm y Garth yn cystadlu yn erbyn Pendefigion Dyfed. Hanner marc oedd yn rhannu'r ddau dîm a'r marciau'n uchel iawn. Bydd rhaid i chi wrando ar y Talwrn i weld a fydd Tim y Garth yn cael mynd drwodd i'r cystadlaethau cyn-derfynol.

CRWYDRO

Mae camau'n gadael
olion ar draeth,
Meddyliaf am Afallon
ac am baradwys.
Afallon yw hwn?
Y rhyddid a deimlaf
bob tro y dof yma.
Gwylltni'r don lidiog,
A'r traeth digyffro
sy'n tawelu'r don.
Mae yna amser gennyf,
gormod o amser.
Gwelaf golli fy ngwaith,
y sŵn, a'r bobl,
Yn arbennig y bobl,
mae pobl nawr yn wahanol.
Y bobl sy'n cynnig
coffi,
ar ôl coffi,
ar ôl coffi!
Mae'n rhaid bod yn wallgof
cyn bod yn gall.
Ymddeoliad - yr euraidd,
Y cyfnod rhydd,
A digonedd o amser,
amser ac amser.
Teimlaf anobaith.
Teimlaf ar goll,
Ar wahan i bawb.
Oes disgwyl i mi,
berson â meddwl,
a theimladau
eistedd a siarad
yfed coffi am byth?
Nid Afallon yw hwn,
Teimlaf fel y don,
ond nid ildiaf i'r traeth.

Beverley Frances Downes
Ysgol Gyfun Rhydfelen

CASETIAU CYMRAEG I'R DEILLION

Tybed a oes gennych ffrind neu aelod o'ch teulu sydd â nam ar ei olwg, ac sydd wedi mynd i fethu â darllen erbyn hyn? Os oes, efallai y gall y Cynllun Casetiau Cymraeg fod o gymorth. Mae gennym nofelau, straeon byrion, cofiannau, barddoniaeth, yn ogystal â phregethau a darlleniadau o'r Beibl.

Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i'r rhai sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall, ond gall eraill sydd heb eu cofrestru dderbyn y casetiau trwy dalu am y cludiant.

I gael rhagor o fanylion am y cynllun a chopi o'r catalog ar dâp neu mewn print, cysyllter â:
Rhian Evans, 1 Penlan,
Caerfyrddin. DYFED. SA31 1DN.
Ffôn: 0267 238225.

NANT GWRTHEYRN

Roedd hi'n arllwys y glaw ac yn oer dros ben. Roedden ni - Dosbarth Nos Llantrisant - ar y ffordd i Nant Gwrtheyrn. Er gwaetha'r tywydd roedd pawb yn llawn hwyl ac yn canu'n ddi-ddiwedd. Doedd dim Saesneg o gwbl yn fy nghar i achos roedd ein hathrawes, Ursula Thomas, gyda ni.

Erbyn y bore roedd y tywydd wedi newid, roedd hi'n braf ac yn heulog; roedd y rhan fwyaf yn mwynhau tair awr o wers yn y bore a thair arall yn y prynhawn.

A'r gweddill? Wel aethom ni am dro o gwmpas yr ardal, gyda llyfr y Nant yn nwylo Ursula. Dysgon ni am y corrach, Meinir a Rhys, gweddillion y 'tanc' ar y traeth. Dysgon ni i gyd y gair am 'bog' pan gwmpodd Sharon ynddo!

Mae'r Nant wedi newid ers y tro diwetha - mae tô ar Gaffi Meinir nawr ac mae'r Plâs wedi cael ei agor fel tŷ cymdeithasu gyda thân enfawr.

Cyn troi adre at yr hwntws prynhawn Sul aethom dros y mynyddoedd i weld Llyn Clywedog.

Pan rydych chi yn y Nant rydych yn dysgu rhai ymadroddion mae eich tiwtor yn defnyddio fel -

Gweithiwch gyda'ch partner
Mae hi'n amser coffi!

ond yr un rydyn ni eisiau dweud wrth Ursula yw :

Unwaith eto os gwelwch yn dda!

Sharon James.

CYLCHGRAWN MISOL

Cylchgrawn Cymraeg yn cael ei ddosbarthu'n fisol yn rhad ac am ddim gyda'r papurau bro, a hynny erbyn Medi 1993 - dyna'r nod a osodwyd mewn cyfarfod o'r Gymdeithas Papurau Bro Cymraeg a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn ystod mis Rhagfyr.

Roedd y cyfarfod yn unfryd fod yr adroddiad 'Y Papurau Bro a'r Farchnad Hysbysebu' yn ddogfen bwysig wrth ystyried dyfodol y papurau bro, a bod angen ystyried ei hargymhellion yn ofalus. Ymhellach penderfynwyd gwhaodd S4C i symud ymlaen, mewn ymgynghoriad â'r papurau bro, i lunio cynllun er sefydlu'r cylchgrawn. Hefyd gwahoddwyd swyddogion y gymdeithas i ymgynghori gyda Bwrdd yr iaith a'r Swyddfa Gymreig ynglŷn â'r posibilrwydd o sicrhau adnoddau i ddatblygu peirianwaith casglu hysbysebion y papurau bro.

Yn ôl Gwilym Fychan, Cadeirydd Cymdeithas Papurau Bro Cymraeg, roedd y cyfarfod a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn un hanesyddol. Dywedodd, "Mae'r adroddiad a luniwyd gan Ganolfan Gydweithredol Cymru yn crisialu dwy flynedd o waith manwl. Mae'n rhoi sylfaen i ni i ystyried datblygiad y papurau bro hyd diwedd y ganrif. Mae'r argymhellion a geir yn yr adroddiad yn rhai ymarferol iawn, ac yn awr yr ydym wedi penderfynu symud ymlaen i geisio eu gwireddu. Gall 1993 fod yn flwyddyn bwysig iawn i'r gymuned Gymraeg os y llwyddwn i sicrhau Deddf iaith, sefydlu cylchgrawn Cymraeg i'w ddosbarthu gyda'r papurau bro, a datblygu peirianwaith casglu hysbysebion y papurau bro. Bydd y gymuned Gymraeg a'r papurau bro ill dau yn cael eu hatgyfnerthu."

GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: E.June Huws

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Sandra Rose a'r teulu yn Georgetown a Hendy-gwyn ar ôl colli ei thad yn ddiweddar.

CYNGERDD COFFA

Ar ddydd Sadwrn, Ionawr 23ain cynhaliwyd cyngerdd coffa i John Thomas y gwneuthurwr telynau a fu farw diwedd y llynedd. Roedd Mr Thomas yn enedigol o'r pentre a bu'n gweithio yma ar un adeg cyn symud i Gas Blaidd yn Sir Benfro.

YR YSGOL

Cododd yr ysgol symiau sylweddol o arian tuag at achosion da. Cafwyd diwrnod gwisg ffansi a chodwyd bron i £300 at 'Plant mewn Angen', a chasglwyd £310.51 tuag at 'Affrica Mewn Argyfwng'. Nadolig dros y byd oedd thema cyngerdd Nadolig yr ysgol eleni ac roedd yr ymdrechion uchod yn gyfraniad teilwng tuag at wella bywydau pobol llai ffodus na ni.

Y CAPEL

Bu pobol ifanc 'Caib' - sef clwb ieuenctid Bethlehem - yn brysur iawn yn ddiweddar. Cafwyd drama Nadolig gaboledig iawn ganddynt hwy a'u hathrawon Siân Powys a Ffion Harris. Ac ym mis Ionawr buont ar ymweliad â Threfeca.

RYGBI

Llongyfarchiadau i Rhys Watkins, Gareth Knight a Gwern Llywelyn ar gael eu dewis i chwarae dros dîm rygbi Ysgolion Ardal Pontypridd.

SIOP BARA Y PENTREF

Heol St Illtyd,
Pentre'r Eglwys

Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.

Mrs Janet Evans

0443 202013

Trefnir Arlwyo

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Wyn Thomas

FFAIR SBORION

Cynhelir Ffair Sborion i godi arian ar gyfer Ysgol Feithrin Llantrisant a'r cylch ar ddydd Sadwrn 20fed o Chwefror yn Neuadd Gymuned, Tonysguboriau.

CANWIO

Dymunwn pob llwyddiant i Nerys Rowlands, Westhills Drive sydd yn cystadlu mewn rhagbrofion i ddewis Tîm Canŵ Slalom Ieuenctid Prydain ar gyfer Pencampwriaethau'r Byd a gynhelir yn yr Unol Daleithiau yn yr haf.

LANSIO CANLLAWIAU IECHYD

Anfonwyd copïau o ddau gyhoeddiad newydd sy'n rhoi cyngor i ysgolion ynglŷn â hybu iechyd i brifathrawon a chadeiryddion yng Nghymru.

Mae "Ysgolion Iach i Gymru - Cyfraniad Llywodraethwyr a Rhieni at Hybu Iechyd" yn edrych ar faterion hybu iechyd yn gyffredinol, ac mae'r ail lyfryn yn ymdrin â rhyw a pherthnasau personol.

Lansiwyd y canllaw i lywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Llantrisant. Yn y llun yn dal copïau y mae, o'r chwith, Marion Drake o Uned Cefnogi Llywodraethwyr Morgannwg Ganol, Sue Bowker o'r Awdurdod Hybu Iechyd, a Marion Evans, Prifathrawes yr ysgol.

CAPEL SALEM TONTEG

Blwyddyn newydd, addunedau newydd ac i'r rhan fwyaf mae'n siwr - y rhyddhad godidog o droi tudalen newydd wedi cynnwrf a phrysurdeb yr Ŵyl.

Y Sul cyn y Nadolig oedd yr un mwyaf prysur yn Salem ac roedd yn eli i'r ysbryd i gyfarch ymwelwyr a chyn aelodau'r Ysgol Sul i'n mysg yn y Gwasanaeth boreol. Trwy gyfrwng carol a chân, darlleniad a gweddi, cyflwynwyd stori'r Geni a neges yr Ŵyl yn effeithiol iawn. Cyn mynd i'r festri am gwpaned a mins pei ac ymweliad Sion Corn, cyflwynodd y plant galendr o'u gwaith eu hunain i gynrychiolydd o bob teulu a oedd yn bresennol. Wedi'r cymdeithasu hwyliog yma aeth y plant a'u rhieni allan am ginio gyda'i gilydd cyn gorffen y diwrnod yn ei flas uwchben coffi a chlonc ar aelwyd Ann a Delwyn Sion. "Diwrnod i'r Brenin" mewn mwy nag un ystyr.

Daw'r Nadolig â'i dristwch yn ei dro hefyd a dyma fu'r hanes ym mhrofiad Mr a Mrs Tilling a Mr Millward. Bu farw eu chwaer, Mrs Gwenllian Jones yn sydyn iawn cyn y Nadolig. Bu Mrs Jones yn Brifathrawes am ugain mlynedd yn Ysgol Fabanod Pentre'r Eglwys. Mae'r bwlch yn fwy amlwg ryw sut pan mae pawb yn closio at ei gilydd dros yr Ŵyl ac fe gydymdeimlwn â'r ddwy chwaer ac hefyd â Mrs D. Morgan, eu chwaer arall. Cyfrannodd Mrs Jones hefyd i dwf y Gymraeg yn yr ardal trwy ddysgu Cymraeg i'r rhieni pan ddechreuodd Miss Winnie Griffiths yr Ysgol feithrin ym Mhentre'r Eglwys.

Newyddion da gafodd teulu Talrynn ar fore Llun, Rhagfyr 14 pan glywson fod Elin yn saff yn Ruteng ar ynys Flores yn Indonesia. Bu daeargryn yn y môr i'r Gogledd o'r ynys a honno'n achosi ton anferthol i orchuddio tre Maumere a lladd dros 2,000 o bobl. Pan lwyddwyd i gysylltu ag Elin ar y ffôn o'r diwedd doedd hi ddim yn ymwybodol o'r drychineb er fod trigolion Ruteng i gyd wedi mynd i eistedd yn y caeau pan ddechreuodd y tai a'r cerbydau grynu'n ddidrugaredd. Diolchir i swyddogion o V.S.O. ac adran newyddion y B.B.C. am ymdrechu'n ddiflino i gael rhagor o wybodaeth am faint y ddrychineb drwy'r penwythnos ofidus hon.

Dymuniadau gorau i'r Parchedig Allan Pickard yn ei swydd newydd yn Adran Newyddion Radio Cymru. Hyfryd ei glywed unwaith eto yn darllen y newyddion ac hyfryd hefyd yw medru ymlacio wrth wrando ar lais profiadol. Diolch iddo hefyd am gyflwyno'r 'Ddolen' sef cylchlythyr y Capel. Bu Allan yn cario tŷ ar ei gefn yn llythrennol, o gapel i gapel cyn y Nadolig er mwyn codi arian i'r digartref. Ffrwyth yr ymdrech oedd £137 a diolchir i bawb a gyfrannodd.

Dyma drefn y gwasanaethau am fis Chwefror.
Chwefror 7. Bore a Hwyr: Y Parchedig Allan Pickard.
Chwefror 14. Bore a Hwyr: Y Parchedig Ieuan Owen.
Chwefror 21. Bore: Y Parchedig Richard Timothy a Hwyr: Y Parchedig D.A. Bowen.
Chwefror 28. Bore a Hwyr: Dr Dewi Huws, Pontypridd.

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

GENEDIGAETH
Llongyfarchiadau i Geraint a Helen Jones, Rhyd y Grug, Y Padocs, ar enedigaeth merch fach, Eiri Angharad ar Rhagfyr 9fed, 1992, - chwaer fach i Osian Rhys a Carwyn Hedd.

GWELLHAD BUAN
Tasg swyddogol Mr Bill Rees ers y chwedegau yw galluogi pobl i weld ymhellach na'u trwynau! Yn ddiweddar, beth bynnag, bu'n rhaid i Bill dderbyn llawdriniaeth i'w gefn a rhaid iddo yntau fod yn dawel ac amyneddgar am gyfnod. Mae ysgolion Gartholwg, Llanhari a Rhydfelen ac unrhyw achos neu elusen teilwng yn ddyledus i ymroddiad diflino a chalonnau agored Bill a Shirley. Dymunwn adferiad llwyr a buan ichi Bill.

YSGOL FEITHRIN TONTEG
Cynhaliwyd amryw o weithgareddau yn yr ysgol yn ddiweddar i ddathlu'r Nadolig ac i geisio codi arian ar gyfer yr ysgol. Bu'r gwasanaeth Nadolig yn un hynod lwyddiannus. Roedd y festri yn llawn fel arfer a'r plant bach yn swyno' pawb â'u canu a phob un yn edrych yn hyfryd yn eu gwisgoedd. Mae'n amlwg fod yr athrawesau, sef Mrs June Larcombe, Mrs Glynwen Blewitt, Mrs Liz Williams a Mrs Liz Jones wedi gweithio'n galed yn dysgu'r plant.

Gobeithir trefnu noson sgitls yn y flwyddyn newydd. Mae lle ar gael o hyd i blant dros 2½ mlwydd oed. Cysylltwch â Mrs Jan Lewis, 203372.

PONTYCLUN

Gohebwyr Lleol:
Dr Mair Hopkins
Margaret Griffiths

LLUNIAU'R PENTREF
Mae'r llyfr 'Hen Luniau Pontyclun' a gynhyrchwyd gan Eglwys Sant Paul wedi gwerthu 700 o gopïau yn ystod ei fis cyntaf. Mae copïau ar werth gan y Parch. M. Reynolds, J & J's Pontyclun a Tŷ Model, Llantrisant.

DATBLYGU MYNWENT
Yn Nhalygarn mae cynllun i ddatblygu mynwent fyw. Gwerir £1500 dros y pedair neu bum mlynedd nesaf i wella'r planhigion a'r bywyd gwyllt ac i wneud y lle'n fwy hwylus i'r anabl. Bydd gerddi teimlo ac arogli yno hefyd ar gyfer y dall.

YR YSGOL FEITHRIN
Cynhelir arwerthiant "Clirio'r Cypyrddau" (Spring Clean!) yn y Ganolfan Gymunedol yn Nhon-ysguboriau, dydd Sadwrn, Chwefror 20fed.

LLYTHYR AR GOLL

Derbyniwyd cwyn oddi wrth un o drigolion Creigiau fod llythyr dosbarth cyntaf o Gaerdydd wedi cymeryd pedwar diwrnod i gyrraedd Creigiau. Roedd rhyw bostman swyddogol wedi ychwanegu "NDO Cardiff" i'r cyfeiriad gwreiddiol "Creigiau. CAERDYDD" ar yr amlen i sicrhau fod y llythyr yn cyrraedd pen ei daith yn hwyr neu'n hwyrach.

Pwrpas y llythyr oedd trafod y bygythiad i wasanaeth y Swyddfa Bost yn sgîl y cynllun gan Cownteri'r Swyddfa Bost i gau ei pencadlysoedd Cymreig ym Mangor a Phenybont ar Ogwr fel bod Cymru'n rhan o ranbarthau Seisnig i'w rhedeg o Fanceinion a Bryste.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

YSGOL GYMRAEG

Ar nos Fercher, 16eg o Ragfyr cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau Ysgol Gymraeg Tonyrefail yng Nghapel y Ton. Roedd y capel yn orlawn gan rieni, perthnasau a ffrindiau plant yr ysgol. Hyfryd oedd gweld y lle yn llawn, ac nid seddau gweigion fel mae ar y Suliau bellach. Rhoddodd hwb i ni fel blaenoriaid ac aelodau'r capel. Croesawyd pawb ar ddechrau'r Gwasanaeth gan Mrs Betsi Griffiths y Brif Athrawes. Cynorthwywyd yn y gwasanaeth gan yr athrawon - Meistri John Evans, Irwyn Wilcox, Mrs Susan Preece y dirprwy brif-athrawes, Mrs Jean Williams, Mrs Bethan Samuel, Mrs M. Morgan, Miss Nia Downes a Mrs Ann Owen gyda'r plant ieuengaf ac feu'u cynorthwywyd gan Mrs L Donovan a Miss Clare Williams. Llongyfarchiadau i'r holl staff am eu gwaith diflino a graenus yn dysgu'r eitemau a gafwyd gan y gwahanol ddosbarthiadau. Diolch yn fawr iawn iddynt i gyd am noson odidog i arwain at y Nadolig.

MAMOTHIAID

Mae gwaith blwyddyn pump ar y thema 'Mamothiaid' yn cael ei arddangos mewn arddangosfa yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd. Aeth Gareth Palmer a Joanne Bayley ar ran y dosbarth i dderbyn tystysgrif gan Roy Noble pan agorwyd yr arddangosfa yn ffurfiol ddechrau mis Rhagfyr. Llongyfarchiadau iddynt am eu gwaith.

Cydymdeimlwn â Miss Clare Williams sydd yn gynorthwywraig feithrin yn yr ysgol, ar golli ei mamgu. Bu'r angladd Dydd Llun, 11eg o Ionawr.

RYGBI

Yn ystod wythnos ola Tymor y Nadolig ymwelodd Capten tîm 'B' Cymru a Llanelli, Rupert Moon â'r ysgol. Bu'n hyfforddi'r plant am ryw awr a chafodd pawb amser bendigedig yn ei gwmni. Bu'r merched a'r bechgyn yn ei holi ac yn gofyn am ei lofnod.

Y FLWYDDYN NEWYDD

Yn ystod troad y flwyddyn bum i a'm gwraig yn aros yn yr hen gartre gyda'm chwaer a'm brodyr ym Mryn Iwan, Cynwyl Elfed. Peth hyfryd iawn oedd cael blasu'r hen draddodiad o bartion yn canu a cheisio calennig yn oriau mân y bore. Mae cof gennyf ohonom yn cymryd rhan felly pan yn ifanc, ar nosweithiau olau leuad braf neu ar y llaw arall yn arllwys y glaw.

Joanne Bayley a Gareth Palmer yn derbyn y tysytysgrif oddi wrth Roy Noble.

Yn ystod bore Calan tan amser cinio roedd plant y cylch yn mynd o ddrws i ddrws yn hel calennig ac yn canu caneuon traddodiadol blwyddyn newydd dda.

CAPEL Y TON

Mae'r oedfaon wedi cael eu cynnal ar brynhawn Sul yn ystod mis Ionawr. Ar Sul cyntaf y flwyddyn cafwyd cwmni y Parch Ddoctor T.J. Davies, Gwaelod y Garth a'r ail Sul ein cyn-Weinidog, y Parch Ieuan J. Owen o Donteg a bu cymundeb yn yr oedfa hon. Yn anffodus mae rhai o'n haelodau i ffwrdd neu o dan anhwylustod. Mae Mr Bernard Farley wedi cael triniaeth law feddygol yn Ysbyty Pentre'r Eglwys, ac ar ben y cwbl fe gollodd ei chwaer, Betty a oedd yn byw yn Glasgow. Ar ôl gwasanaeth yn yr Amlosgfa yno dychwelwyd y gweddillion i'w chladdu ym mynwent Capel y Ton. Cydymdeimlir yn daer â Bernard a'i deulu a dymunwn wellhad buian iddo.

Rydym yn gweld eisiau Mr Emlyn Llywelyn hefyd yn yr oedfaon. Ers cau drsyau Ainon mae wedi bod yn ffyddlon iawn yng Nghapel y Ton. Dydi tywydd caled ac ansefydlog y gaeaf ddim yn cytuno ag ef. Rydym yn gwerthfawrogi presenoldeb aelodau Ainon gyda'u haelioni yn ein hoedfaon.

Mae Mr Harries Mills hefyd yn ofni mentro allan i'r elfennau, ac wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar. Mae Mrs Evans, Heol Penygarreg wedi bod yn bur wael yn ddiweddar ac wedi treulio peth amser mewn ysbyty. Brodor o Grymych yn yr hen Sir Benfro yw Mrs Evans. Rhwydd hynt iddi.

Mae Mr David Williams, Llysyrefail wedi treulio rhai wythnosau yn Ysbyty Dewi Sant, Pontypridd. Bu ei wraig mewn damwain car ac fe anafodd hi ei braich, felly nid oedd mewn ffordd i edrych ar ôl ei gwr. Fel rwyf wedi crybwyll o'r blaen mae Mrs Williams yn fodryb i'r diweddar Syr Geraint Evans a bu hi i fyny yn Llundain yn y Gwasanaeth Coffa iddo.

GILFACH GOCH

Dydi Miss K.O. Pritchard ddim wedi bod yn dda iawn dros y Nadolig ond da yw hysbysu ei bod lawer iawn yn well erbyn hyn. Gobeithio y bydd yn gohebu eto am mae hi sydd a'i bysedd ar newydd y Gilfach. Bendith arni. Hefyd mae Mr Raymond Bonas Jones yn Ysbyty Pentre'r Eglwys. Mae yn well a gobeithio y bydd adre'n fuan. Hwyl a bendith iddo yntau.

DEWCH I AIL FYW OES AUR Y DIWYDIANT GLO

Ccwch gyfle i brofi bywyd mewn pwll glo yn y Rhondda dros y 150 mlynedd diwethaf gyda cyn-lowr fel arweinydd.

Mae cymeriad unigryw y Rhondda yn cael ei gyflea trwy lygaid tair cenhedlaeth un teulu glofaol.

Pe welwch olygfeydd, fe glywch synaau a chewch brofi arogleuon ocs a fu, yn fyw o flaen eich llygaid.

AR AGOR 10 - 6
Dilynwch yr arwyddion ffordd o'r A470.Am fwy o fanylion cyclltwch a Mary Scourfield 0443 682036.

AUR DU
HANES GLO

Gorffennol gogoneddus ar gof a chadw

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

SWYDD NEWYDD

Llongyfarchiadau i Sonia Sokolowski, Ffordd y Capel ar ei phenodiad yn brif-athrawes Ysgol Gynradd Graig y Wion. Bu Sonia'n ddirprwy brif-athrawes Ysgol Gynradd Porthcawl am rai blynyddoedd a chyn hynny roedd ar staff Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth. Ymgymerodd Sonia â'i swydd newydd ddechrau Ionawr a dymunwn yn dda iddi.

YN YR YSBYTY

Dymunwn yn dda i Andrew Wilkinson, Heol y Parc a fu'n derbyn triniaeth yn yr sybyty'n ddiweddar.

Y TABERNACL

Yn y Gwasanaeth Cymun ddechrau Ionawr derbyniodd y Gweinidog chwe aelod newydd i'r eglwys. Roedd Bethan Calvert, Awen Mai Davies ac Owain Thomas, y tri ohonynt yn fyfyrwyr adre ar eu gwyliau o'r coleg; ac mae Geraint a Rhiannon Price a Shelagh Griffiths wedi bod yn rhan o'r gynulleidfa ers blynyddoedd bellach. Roedd yn braf cael groesawu'r chwech i lawn aelodaeth.

PRIODAS ARIAN

Dymunwn yn dda i Gwilym a Beti Treharne a fu'n dathlu eu Priodas Arian ddiwedd Rhagfyr. Ar fore Sul ola'r flwyddyn trefnwyd dathliad bach annisgwyl i'r ddau yn y capel. Cyflwynwyd llun o'r capel iddynt a chafodd pawb a oedd yn bresennol gyfle i'w llongyfarch dros baned o de a darn o deisen ar ôl yr oedfa.

PRIODAS

Llongyfarchiadau i Menna Rees a Peter Steer ar eu priodas ar Ddydd Sadwrn yr ail o Ionawr yng Nghapel y Tabernacl. Unig ferch Mr Mostyn Rees a'r diweddar Mrs Megan Rees yw Menna ac mae Peter yn hanu o Swydd Essex.

Fe gyrhaeddodd Menna a'i Thad y capel mewn steil mewn cerbyd yn cael ei dynnu gan ddau geffyl hardd. Edrychai Menna'n ddeniadol iawn mewn gwisg hir o sidan Thai o liw hufen gyda phenwisg o rosynnau a pherlau. Cariai dusw o rosynnau Nadolig, celyn a phinwydd. Y morynion oedd Jayne Jones o Gaerfyrddin, cyfnither Menna, a Paula Miners, chwaer Peter. Roedd y ddwy'n gwisgo gwisgoedd melfed gwyrdd tywyll. Siwt a het o liw gwyrdd ddewisodd Mrs Gwyneth Rees hefyd.

Y gwas priodas oedd Richard Baldie o'r Alban, ffrind Peter o ddyddiau coleg yn Aberystwyth, a chan ei bod yn drannoeth Gŵyl yr Hogmanay edrychai yntau'n smart iawn yn y cilt traddodiadol. Tywyswyd y gwahoddedigion i'w seddau gan John Rees, Wayne Jones a David Jackson.

Addurnwyd y capel yn drawiadol iawn i greu awyrgylch gynnes, Nadoligaidd. Ychwanegwyd at y naws gan sain carolau a miwsig pwrpasol gan Bethan Roberts, y delynores a Carey Williams yr organydd. Gweinyddwyd y gwasanaeth priodas gan y Parchedig Eirian Rees.

Mwynhawyd y wledd briodas yng Ngwesty hynafol Coed y Mwstwr a miwsig telyn Eirian Dyfri Jones yn gefndir pwrpasol.

Drannoeth gadawodd Menna a Peter i fwynhau eu mis-mêl yn Jamaica. Byddant yn ymgartrefu yn ardal Birmingham a dymunwn hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol.

Y Parch Eirian Rees gyda Beti a Gwilym Treharne

TUDALEN YR YSGOL

Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Sion Norton

Stori Caradog

Rhiannon Rees, Blwyddyn 3/4

Un waith roedd dyn or enw Brân. Roedd Brân yn mynd i ymladd y Rhufeiniaid, ac un diwrnod fe glwyfwyd Brân. Enillodd y Rhufeiniaid y frwydr. Wedyn aeth Brân adref. Daeth ei wraig allan a gweld Brân a gwaeddodd hi "Cai". Daeth Cai a gweld ei dad Brân a helpu iw gario fe ir gwely. Roedd e yn hanner marw. Dwedodd e "Mae'r Rhufeiniaid yn dod yma." "Byddan nhw ddim yn dod i'r rhan hon", meddai ei wraig. Wedyn roedd e wedi marw ac roedd pawb yn crio. A'r bore hwnnw roedd e yn y bedd daeth milwyr Rhufain. Cododd Cai y cleddyf ac roedd un o'r Rhufeiniaid wedi codi ei gleddyf a bwrw Cai ar ei wyneb. Roedd Caradog yn Rhufain. Roedd e yn garcharor. Dwedodd Cesar "Penlinia i fi". "Na" meddai Caradog. Roedd y milwyr yn meddwl fod Cesar yn mynd i ladd Caradog ond roedd en meddwl fod Caradog yn ddewr ac yn gryf, ond doedd e ddim yn gadael i Caradog byth fynd yn ôl i Gymru.

Un waith roedd fferm anferth gyda un ci, un mochyn un hwyaden ac un dafad a ffermwr or enw Jac. Bob bore roedd Jac yn codi or gwely ac yn rhoi bwyd i bob anifail ar y fferm ond un diwrnod roedd y ci yn dost a roedd y ceffyl yn y stabal fod i ddod mas or stabal achos roedd y ffermwr wedi rhoi y ci i mewn. Roedd y ffermwr wedi mynd ar ci ir fet. Roedd y fet wedi gwella'r ci a roedd pobun yn hapus yn y fferm gyda Jac.

Eiry Rock, Blwyddyn 3

balŵn
hedfan
adenydd
awyren
adar
roced
hofrenydd
maes awyr
parasiwt
pluen
concord
awyr
aer
cymylau

Carli Evans a Lowri Mair Jones
Blwyddyn 6

Y PANTOMEIM 'BLODEUWEDD'

Ddoe roedden ni wedi mynd i'r panto ac roedd e'n dda. Roedd Blodeuwedd yn y panto ac roedd hen wrach mewn yn y panto hefyd. Roedd Gronw yn drewi! Roedd Blodeuwedd yn ddrwg a roedd Llew yn chwarae rygbi. Roedd rhosyn hardd wedi mynd gyda'r wrach ac roedd Blodeuwedd wedi cael ei chlymu lan.

Aled Jones, Blwyddyn 3 (7 oed).

Roedd bachgen o Bontypridd
Yn hoffi chwarae pob dydd,
Tenis, rygbi a phel-droed
Gyda'i law neu gyda'i droed,
Yn gobeithio scorio mewn ffydd.

Rhys Johns, Blwyddyn 6

STORI ROMULUS A REMUS

Unwaith roedd dyn o'r enw Aeneas. Rhedodd i ffwrdd i'r Eidal. Cwmpodd Aeneas mewn cariad gyda tywysoges. Penderfynodd Aeneas i briodi'r tywysoges. Pan oedden nhw wedi priodi cafodd nhw mab o'r enw Ascanias. Roedden nhw'n teyrnasu am bedwar can mlynedd. Roedd rhywun wedi dod a lladd pawb ond am Romulus a Remus. Cafodd nhw eu adael ar bwys yr afon Teiber i farw. Ond daeth blaith heibio a magu nhw. Pan dyfon nhw lan penderfynodd nhw i adeiladu tref. Lladdodd Romulus Remus a rhoddodd ei enw ar y dref. A dyna sut mae'r enw Rome ar y ddinas

Gavin Higgins, Blwyddyn 3/4 (8 oed).

GWYLIAU YN LLANGRANNOG

Ydych chi wedi bod i Wersyll Llangrannog fel plentyn neu Swog? Wel, beth am fynd yno eto fel oedolyn?

Aeth criw bach o'n hardal ni i lawr am dridiau dros y Calan - pedwar ohonom gyda phedwar o'n plant. Gwyliau teuluol a drefnwyd gan yr Urdd oedd yr achlysur a chwrddon ni â rhyw saith deg o rieni a phlant, i gyd yn Gymry Cymraeg, ar y noson cyntaf, cyn i ni ddianc i'r pentref i fwynhau peint neu ddau yn y "Llong".

Dechreuodd y gweithgareddau o ddifri bore trannoeth: sgio, nofio, sglefrolio, motorbeics, merlota, twmpath a mwy o nofio - yn fwy tebyg i gwrs ymarfer corff na gwyliau, dwedodd rhai.

Cawsom barti gwych nos Calan ac i glirio'r pen bore trannoeth aethom am dro ar hyd y llwybrau uwchben y clogwyni ac i lawr i'r pentref. Roedd hi'n braf ac yn sych, ac roedd y golygfeydd ar hyd yr arfordir yn fendigedig.

Er fod y gweithgareddau yn para trwy'r dydd, roedd paned, bisgedi a ffrwyth ar gael trwy'r amser, diolch byth, i gadw ni i fynd! Erbyn y diwrnod olaf roedd "Trivial Pursuits" yn fwy deniadol i rai ohonom a bu cystadlu brwd tan oriau mân y bore.

Wel, ydych chi am ymweld â Llangrannog? Mae'r bwyd wedi gwella yn syfrdanol ac mae'r adeiladau i gyd yn lan ac mewn cyflwr da. Os oes diddordeb cysylltwch â Jim neu Steff ar 0239 654473 am fanylion Gwyliau Teuluol Llangrannog.

DYSGU'R IAITH YN Y GWAITH

Daeth dros 60 o weithwyr Cyngor Taf Elái i Siambr y Cyngor i gofrestru ar gwrs Cymraeg. Dechreuodd pedwar dosbarth canol dydd ar yr unfed ar ddeg o Ionawr - y Cyngor yn cyfrannu awr a'r gweithwyr yn aberthu hanner awr o ginio. Ar ddydd Mawrth bydd y myfyrwyr yn dilyn cyfres fideo "Now You're Talking". Ar ôl 10 wythnos bydd cyfle i sefyll cam cyntaf cynllun asesu nodau cyfathrebol C.B.A.C. ac fe adolygir y sefyllfa i weld beth fydd gofynion y dysgwyr yn y dyfodol.

YMWELIAD A CASTELL CAERFFILI

Dydd Iau diwetha aethon ni i gastell Caerffili i ddysgu am y Normaniaid. Roedd fenyw o'r enw Dora yn ein dangos ni o gwmpas. Pan gyrhaeddon ni y capel y daeth Gilbert de Clare a Llywelyn ap Gruffydd i mewn ac roedden nhw'n gweiddi ar ei gilydd. Dywedodd Llywelyn wrth Gilbert, "Mae'n rhaid inni ymosod ar Loegr oherwydd dydy Edward yr ail ddim wedi cadw ei addewid y byddai i'n frenin Cymru." Dyweddod Gilbert, "Rydw i'n un o ddynion y Brenin." Clapiodd Dora ei dwylo unwaith a safodd y dynion yn stond a gofynodd Dora cwestiynau inni. Pan clapiodd hi ei dwylo am yr ailwaith cerddodd y dynion allan. Yna, rhannwyd ni i mewn i tri grwp a rhoddwyd tiwnig inni. Gwyrdd i'r Cymry, melyn i'r Normaniaid a "beige" i'r gwerinwyr. Aeth y Cymry a'r Normaniaid mas i siarad gyda Llywelyn a Gilbert. Gwerinwr oeddwn i ac arhosais i yn y capel gyda'r lleill. Siaradon ni am y castell. Roedd rhaid inni eistedd mewn seddau arbennig fel mewn llys. Jonathan oedd y barnwr gyda morthwyl. Ysgrifennydd oeddwn i ac roedd pen pluen da fi. Roedd Llywelyn a Gilbert yn dweud eu storïau wrthon ni ac roedd Gilbert yn mynd i daro rhywun ac roedd yn rhaid i fi ei wthio yn ôl. Yn y diwedd dewision ni yr ochrau a phenderfynais i i ddilyn Llywelyn a'r Cymry.

Geraint Chinnock, Blwyddyn 4/5 (8 oed).

ATHLETAU DAN DÔ

Roedd un ar ddeg o blant blwyddyn 6 wedi mynd i Ganolfan Hamdden y Ddraenen Wen i gystadlu yn erbyn ysgolion eraill yn Athletau Dan Do. Roedden ni'n cynrychioli gwlad Ffrainc. Roedden ni fod gwneud gwahanol fathau o athletau fel 'javelin', cyfnewid i ddau, cyfnewid i bedwar, naid hir, naid uchel, pwy oedd yn gallu taflu'r bêl yr hiraf a clwydi. Roedden ni wedi ennill popeth ond y 'javelin'. Roedden ni wedi ennill y gystadleuaeth gyda 52 o bwyntiau. Roedden ni wedi cael crys T yr un i gadw gyda enw Ffrainc ar y blaen. Enillon ni medalau a cwpan arian i'r ysgol.

Tîm y merched: Lowri Oliver, Nicola Hatch, Alison Thomas, Carina Galozzi, Sarah Williams, Annemarie Coggins

Tîm y bechgyn: Greg Byrne, Ross Lloyd, Peter Williams, Paul Haywood, Christopher Kinsey

Lowri Oliver a Alison Thomas
Blwyddyn 6

TUDALEN YR YSGOL

TUDALEN Y PLANT

Cyfunwch tri sgwâr ar y tro i ganfod enw aderyn. Mae 5 yma i gyd.



Gwnewch lwybr o'r ci at yr asgwrn - sy'n gwneud cyfanswm o 50



Sawl sgwâr a sawl triongl sydd yma?



CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Sheila Dafis

MEITHRIN CENNIN PEDR?
Mae dyfodol y Cylch Meithrin yn dibynnu ar ymgyrch flynyddol i godi'r arian pur sylweddol sydd ei angen erbyn hyn i gynnal Cylch o'r fath. Ers blwyddyn neu ddwy bellach, bu'r mamau ffyddlon yn mynd ati i wneud cennin pedr ffelt trawiadol, i'w gwerthu ar gyfer dathliadau Gwyl Ddewi. Eisoes mae'r dwylo prysur yn torri ac yn gludo pwl ffelt! Pob llwyddiant ichi ferched; gobeithio y bydd ôl eich llafur i'w weld ym mhobman ar Fawrth 1af.

YSGOL GYNRADD Y CREIGIAU
Braf oedd gweld pob un o blant yr ysgol yn cymryd rhan yn y cyngerdd Nadolig, o'r hynaf i'r ieuengaf un, a'u rhieni'n amlwg wrth eu bodd. Penderfynwyd ychwanegu cyfran o elw'r cyngerdd at gasgliad Plant Mewn Angen; o ganlyniad bu'n bosib i'r ysgol anfon £445 at yr ymgyrch honno. Diolch i bawb a gyfranodd.

Llongyfarchiadau i'r ddau dîm o'r ysgol sydd wedi mynd trwodd i'r rownd nesa o'r cwis llyfrau. Yn ogystal â rhoi ar gof o glawr i glawr y llyfrau gosod, bydd rhaid iddyn nhw hefyd roi cyflwyniad dramatig yn seiliedig ar lyfr dewisol - gwyddom am safon uchel cyflwyniadau'r ysgol yn dda. Pob lwc iddyn nhw.

Ble'r aeth Dic Deryn? Mae plant yr Adran Gymraeg yn gwybod oherwydd fe welson nhw Dic yn cuddio ynghanol cast y pantomeim "Blodeuwedd". Ar ôl mwynhau'r trip hwnnw i Gaerdydd, mae'r plant wrthi'n brysur yn paratoi at eisteddfod yr Urdd erbyn hyn. Mi fydd hi'n Sulgwyn cyn pen dim.....

SGORIO CAIS
Mae Owain Thomas o Barc Castell y Mynach yn dipyn o chwaraewr! Nid pawb sy'n cael chwarae rygbi i drydydd tîm Caerdydd y dyddie hyn, heb son am y tîm cyntaf. Nid yn unig fod Owain wedi gwisgo lifrau'r tîm cyntaf yn erbyn Pontypridd ar ddydd San Steffan, ond hefyd fe sgoriodd gais! Myfyriwr yn y brifysgol yn Llundain ydy o pan fydd o ddim yn chwarae rygbi.

CYFEILLION YR YSGOL
Mae'r pwyllgor yn cynnal raffl fawr eleni ac am gynnig gwobrau lu. Beth am eu cefnogi nhw a'r Ysgol mewn

ffordd ymarferol drwy gynnig gwobr, ac os ydych yn rhedeg busnes yna cewch hysbys eang yn y fargen. Cysylltwch â chadeirydd y pwyllgor - Wendy Canning, (892464) a rhowch wybod i'ch ffrindiau.

DYWEDDIAD
Llongyfarchiadau i Julian Edwards, Parc y Bryn a Samantha Bennett ar eu dyweddiad ar ddydd Nadolig.

YSGOL GARTH OLWG

OGWR
Bu deuddeg o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 ar gwrs Cymraeg yng Nghanolfan Ogwr o Ionawr 12fed - 15fed.

TŶ HAFAN
Cyflwynwyd siec o £153 i gronfa Tŷ Hafan gan ddisgyblion yr ysgol. Codwyd yr arian yng Ngwasanaeth Carolau'r ysgol a phan fu aelodau'r Urdd yn canu carolau tu allan i Gateway cyn y Nadolig. Pan fyddant wedi codi'r arian angenrheidiol Tŷ Hafan a fydd yr Hospice cyntaf i blant a'u teuluoedd yng Nghymru. Mae swyddfa weinyddol Tŷ Hafan ym Mhentre'r Eglwys.

Bu pedair o ferched Gartholwg sef Catrin a Ffion Davies, Ceren Roberts a Lowri Llewelyn yn canu carolau o gwmpas y Dell cyn y Nadolig hefyd ac fe gasglwyd £20 ganddynt hwy ar gyfer cronfa Tŷ Hafan.

ATHRAWES NEWYDD
Croeso cynnes i Miss Helen Davies, sydd wedi ymuno â staff yr ysgol ers dechrau'r tymor. Roedd Helen yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Rhydygrug cyn dod i Ysgol Gymraeg Garth Olwg. Pob hwyl iddi yn ei swydd newydd.

CYSTADLEUAETH NOFIO
Bu rhai o blant yr ysgol yn nofio yng Nghystadleuaeth Genedlaethol yr Urdd. Llwyddodd Amy Breckon i ddod yn drydydd yn y Dull Rhydd 8 - 10 oed.

PUMP BOB OCHR
Ar Ionawr 12fed bu tîm pêl droed yr ysgol yn cymryd rhan yng Nghystadleuaeth 5 Bob Ochr yr Urdd. Enillwyd y ddwy gêm gyntaf yn erbyn ysgolion Penygawsi ac Ynyswen a chafwyd gêm gyfartal yn erbyn ysgol St Mary's a St Patrick's ond collodd Gartholwg yn y rownd yma ar y ciciau cosb.

GWEINIDOG POBL Y CWM?
Roedd y Parch Hywel Lewis yn un o'r rhai ffodus a ddyfalodd yn gywir pwy oedd am brynu'r Deri Arms yng Nghwmderi yn y gystadleuaeth a drefnwyd gan Gymdeithas Rhieni Ysgol Gyfun Llanhari. Fel gwobr cafodd ddiwrnod yn ymweld â set Pobl y Cwm. Nid fod cymeriadau y Cwm yn anghyfarwydd iddo oherwydd Mr Lewis yw cyn-brifathro ysgol Cwm Deri yng Ngwaelod y Garth.

FFYNNON TAF

Gohebydd Lleol:
Alwyn Harding Jones

TAE KWON DO
O'r deg ar hugain sy'n ymarfer Tae Kwon Do yn wythnosol yng nghangen Tongwynlais, gwobrwywyd Caroline Chown o Rhiw'r Ddar, Ffynnon Taf fel y disgybl gorau ym 1992. Mae Caroline ym mlwyddyn 8 yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ac yn disgleirio mewn llawer i faes.. Llongyfarchiadau Caroline, a dal ati.

YSGOL FEITHRIN
Dymuna'r pwyllgor a'r plant ddiolch i bawb a gyfrannodd mor hael at apêl blynyddol yr ysgol feithrin. Braf gweld yr ysgol yn llawn dop gyda 22 o blant - mae gofyn i ddarpar ddisgyblion gysylltu a Sue Traylor (0222 811709) er mwyn "rhoi eu henw i lawr". Cofiwch am y noson hwyliog fel arfer pan fydd drysau Warren Farm, Cartref Dorothy a Gordon Bunn, ar agor i ddathlu Gŵyl Ddewi.

RYGBI
Mae rhieni ac aelodau'r clwb rygbi'n brysur yn codi arian i dalu am daith blynyddol y minis unwaith eto. Eleni, bydd y minis yn ymweld ac ardal Bath a Weston - er mwyn dangos i'r Saeson sut mae chwarae rygbi. Cafodd pedwar o aelodau ifanc y clwb y fraint o gael eu dewis i chwarae dros ysgolion ardal Pontypridd (dan 11 oed) yn ddiweddar. Da gweld traddodiad y pentre'n parhau.

O'r Chwith i'r Dde:
Rhys Watkins, Gwern Llywelyn
James Barrie, Gareth Knight.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Eleri Jones

CYDYMDEIMLAD
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Dave a Gwyneth Lewis, Lon y Fro ar farwolaeth tad Dave ar drothwy'r Nadolig. Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth tad Gareth Williams, Tŷ Ni, Heol Penuel ychydig cyn y Nadolig. Roedd ef wedi ymgartrefu yma ym Mhentyrch ers blynyddoedd lawer ac yn wyneb cyfarwydd o gwmpas y pentref. Cydymdeimlwn â Gareth, Yvonne a'r teulu yn eu colled.

DATHLU PENBLWYDD
Llongyfarchiadau i Mrs Mari Morgan, Maes y Sarn ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Dymuniadau gorau holl ddarllenwyr Tafod Elái.

ACTORES
Llongyfarchiadau i Angharad Devonald, cefn Bychan ar ei llwyddiant yn perfformio yn "The Dark is Rising" yn Theatr y Sherman dros gyfnod y Nadolig.

CLWB Y DWRLYN
Bu aelodau Clwb y Dwrlyn yn crwydro o gwmpas y pentref ychydig nosweithiau cyn y Nadolig yn canu carolau. Roedd hi'n noson oer iawn a mawr oedd y croeso i'r cawl yn y Clwb Rygbi ar ddiwedd y daith. Llwyddwyd i gasglu £127 tuag at Gymorth Cristnogol. Diolch i bawb a gyfrannodd.

MERCHED Y WAWR
Cafodd aelodau'r gangen noson fywiog iawn yng nghyfarfod mis Ionawr wrth gadw'n heini yng nghwmni Sarah Jane Morgan yn festri Bethlehem, Gwaelod y Garth. Cofiwch ddod ar saffari yng nghwmni Hywel a Hilary Lewis yn y cyfarfod nesaf ar Chwefror 10fed.

SGIO
Mae hanesion di-ri yn dychwelyd o lethrau'r Alpau am orchestion rhai o'n pentrefwyr. Tarodd un o'n sgiwyr profiadol syth i mewn i'w wraig gan achosi gryn ddolur iddi. I arafu ar lethr serth iawn aeth un arall o'n sgiwyr dewr syth i mewn i Sais gan ddisgyn ar ei ben. Ac roedd un wedi torri ei ysgwydd hyd yn oed cyn cyrraedd y piste - fe ddisgynodd ar balmant llithrig wrth fynd i nôl bara peth cyntaf yn y bore. Pwy ddwedodd mai pleser pur yw bywyd ar y ski. Mae'n siwr fod yr anafiadau yn rhoi digon o amser am yr apres ski beth bynnag!

CODI CWR Y LLEN AR .....

Enw	Penri Gwyn Williams
Cartref Presennol	Hendre, Pentyrch
Bro eich mebyd?	Porthmadog, Sir Gaernarfon
Beth oedd eich uchelgais pan yn blentyn?	Gyrru Injan Stêm
Pa lyfrau wnaeth argraff arnoch pan oeddech yn ifanc?	Tomos y Tanc (yn Saesneg adeg honno) a Wythnos yng Nghymru Fydd.
Pa le yw'r man harddaf ar y ddaear i chi?	Aber Afon Glaslyn a'r olygfa tuag at Eryri.
Pa sefyllfa neu berson a fyddai'n codi arswyd arnoch?	Does dim llawer yn fy nghynddeiriogi ond galla' i ddim dioddef ffilmiau arswyd megis Dracula a'r Terminator.
Pe baech yn cael cynnig noson allan gyda rhywun enwog sy'n fyw nawr pwy fyddai'r person hwnnw?	Caryl Parry Jones.
Sut y byddech yn gwario cyfoeth mawr a enillwyd gennych neu a adawyd i chi?	Newid swydd i weithio mewn awyrgylch hollol Gymreig.
Mewn tân, pa beth arwahan i bobl a fyddech yn geisio ei achub o'ch cartref?	Fy archif ffilm cine a fideo o'r teulu ac ambell i gôr.
Sut y byddwch yn treulio oriau hamdden?	Cymryd rhan yng ngweithgareddau mudiadau Cymraeg y fro. Gwrando ar gerddoriaeth. Breuddwydio am bythefnos yn yr haul ar ynys ym Môr y Canoldir.
Beth yw'ch syniad chi o ddiwrnod delfrydol?	Bore yn yr ardd. Awr yn siopa yn y dre a noson yn canu a chymdeithasu gyda'r côr.
Pe baech yn gorfod treulio amser ar ynys unig ac yn gorfod bodloni ar y canlynol, pa bethau fyddech yn ddewis?	
Llyfr:	Hanes Cymru. John Davies.
Record neu ddisg:	Requiem Mozart
Pecyn o fwyd parod:	Letys, Tomato, Ham a Salad Cream.
Llun:	Pont Alexandre a Thŵr Eiffel.
Dilledyn ychwanegol i'r dillad sydd arnoch:	Cap i gadw 'mhen yn sych!
Un gwrthrych arall:	Cyfrifiadur.
Beth yw eich cyngor i ieuenctid Taf Elái?	Mwynhau bywyd i'r eithaf a defnyddio'r iaith Gymraeg ar bob achlysur posib.

Gofynnwch am Fil Ffôn yn Gymraeg

*Dros y misoedd nesaf byddwn yn **Codi Cwr y Llen** ar nifer o drigolion Taf Elái. Bu cryn troi braich i berswadio'r Golygydd i ddechrau'r gyfres.*

UGAIN EMYN UCHAF

Annwyl Olygydd,

Carem fanteisio ar eich colofn i hysbysu'ch darllenwyr o fwriad Sain i gyhoeddi casgliad o 20 UCHAF EMYNAU CYMRU ar gaset a Chryno-Ddisg. Ond cyn gwneud hynny, carem glywed beth yw barn y bobl! Felly rydym wedi paratoi rhestr o'r emynau enwocaf a recordiwyd yn Gymraeg (75 ohonyn nhw) ac y mae'r rhestr ar gael yn eich siop Gymraeg leol neu drwy'r post oddi wrth Sain. Gyda'r rhestr fe gewch ffurflen i nodi eich 20 hoff emyn en eu trefn.

Fe gewch tan Mai 1af i anfon y ffurflen yn ôl, ac yna bydd y cyfrifiadur yn cyfuno'r holl atebion ac yn datgelu'r 20 UCHAF swyddogol yn ôl eich barn chi. Mi fydd pob un sydd a rhestr yr un fath, neu agosaf at y rhestr derfynol yn mynd i'r het er mwyn dewis un enillydd. Bydd gwobr o £50 i'r enillydd hwnnw, a £200 yn ychwanegol i elusen neu gapel/eglwys o ddewis yr enillydd. Edrychwn ymlaen at glywed gennych!

Yr eiddoch yn gywir,

Elin Owen.
SAIN, Llandwrog, Caernarfon. Gwynedd. LL54 5TG.
Ffôn: 0286 831111.

AIL-LAWNSIO CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT A'R CYLCH

Ar ôl rhyw flwyddyn go dda o seibiant anEisteddfodol, penderfynodd criw bychan ei bod yn bryd inni ailddechrau mwynhau ein hunain. Cafwyd mis Rhagfyr addawol dros ben, gan gynnal nid un digwyddiad, ond tri! (Gwneud iawn am amser a gollwyd efallai?!)

'Ffair Cwtsh dan Staer' yn y Tŷ Model fore Sadwrn y pumed oedd achlysur swyddogol cyntaf ail gyfnod hanesyddol y Gymdeithas. Crwydrodd rhyw ddeg ar hugain i mewn ac allan yn ystod y bore, yn mwynhau clonc a phaned o goffi ac yn prynu ambell i anrheg Nadolig. Gwnaed elw o ryw £40 tuag at gronfa Somalia.

Y nos Fercher ganlynol cafwyd cinio Nadolig gwahanol a chwmnïaeth hwyliog ym mwyty Mulligans ger y Bont-faen. Gallwch weld o'r lluniau bod pawb wedi mwynhau. Mwynhaodd Bryn ac Eleri gymaint fel eu bod wedi gwneud cais arbennig am gael cinio unwaith bob tri mis (o leiaf) fel rhan o raglen y Gymdeithas.

Noswyl Nadolig, yn ôl yr arfer, cynhaliwyd gwasanaeth Plygain yng Nghapel y Tabernacl, Pontyclun. Cynhaliwyd Plygain y Gymdeithas ym Mhontyclun yn ddi-dor ers rhyw ddeng mlynedd bellach.

Yy, ma gin i boen yn 'y mol ...

Roedden nhw'n dawnsio ar ben y byrddau yno!

Ddechrau Ionawr daeth criw bychan at ei gilydd i lunio rhaglen ar gyfer y flwyddyn. Gobeithio bod yna rywbeth a fydd yn apelio at bawb. Y nod yw cynyddu aelodaeth y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn a rhoi cyfle i bawb fwynhau eu hunain yn Gymraeg. Mae'n hynod o galonogol gweld nifer o ddysgwyr yn ein cefnogi eisoes. Os gwyddoch am unrhyw ddysgwyr sydd am ymarfer eu Cymraeg yn ardal Llantrisant, yr Efail Isaf, Ton-teg, Tonyrefail, da chi dewch â nhw gyda chi i gyfarfodydd y Gymdeithas.

Os oes unrhyw un â syniadau am weithgareddau ychwanegol, byddem yn hynod falch o glywed gennych (223282, 228196 neu 228143).

Y pumed neu'r chweched pwdin, Gwil?

Cynhelir nifer o gyfarfodydd y Gymdeithas eleni yn y Brunel ym Mhontyclun. Mae 'na ystafell fawr gysurus yno. Dewch draw ar y 26ain o Chwefror i roi eich barn.

CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT A'R CYLCH

Rhaglen 1993

Cyfarfodydd am 7.30 oni hysbysir yn wahanol.

26 Chwefror - Brethyn Cartref. Noson o sbort a sbri a chystadlu rhwng tîm o ochr Ton-teg a thîm o ochr Llantrisant. Beirniad ac awdur digywilydd y tasgau - Geraint Hughes. Tafarn y Brunel, Pontyclun (gyferbyn â'r orsaf newydd)

19 Mawrth - **CINIO GŴYL DDEWI**
Gŵr gwadd, Yr Athro Hywel Teifi Edwards. Neuadd Llechwen, Pontypridd. Ffoniwch cyn 20 Chwefror i gadw lle (228196). £14.50

30 Ebrill - Sgwrs

21 Mai - Cinio trimisol

25 Mehefin - Barbyciw a Mabolgampau ar y traeth ym Mhorth Ceri

16 Gorffennaf - Helfa Drysor

24 Medi - Noson o Adloniant

Dechrau Tachwedd - Ymweliad â chyngerdd, opera neu ddrama

10 Rhagfyr - Cinio Nadolig

24 Rhagfyr - Gwasanaeth Plygain

Aelodaeth teulu £4
Aelodaeth unigol £2



PWLL NOFIO NEWYDD
Diolch i'r glaw trwm (ac ambell i awdurdod) mi roedd yn bosibl nofio, yn ogystal â chwarae ar y siglenni ym mharc Ffynnon Taf cyn y Nadolig.

CANOLFAN IAITH GENEDLAETHOL NANT GWRTHEYRN
Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd LL53 6PA. Llithfaen (075 885) 334.

Ionawr 14. 1993

Annwyl Ddarllenwyr,

Mae'n hysbys i bawb fod Canolfan Iaith Genedlaethol Cymru, Nant Gwrtheyrn yn cynnal cyrsiau Cymraeg i unigolion a grwpiau o bob lefel ond faint ohonoch sy'n gwybod ei bod hi'n bosibl i Gymry Cymraeg dreulio gwyliau yma? Mae croeso i unigolion neu deuluoedd cyfan fynychu'r Nant am wyliau a mwynhau tirlun y môr a'r mynydd a phrofi awyrgylch arbennig y Nant. Beth amdani eleni?

Yn aml bydd rhai'n gofyn beth allen nhw ei wneud i gynorthwyo'r Ganolfan y dyddiau hyn. Efallai y byddai rhai ohonoch yn fodlon gwirfoddoli ychydig o amser o dro i dro fel cynorthwywyr iaith. Golygai hyn wario ychydig o amser yn siarad â'r dysgwyr, efallai chwarae gemau awyr agored neu, yn wir, gynorthwyo gydag unrhyw weithgaredd anffurfiol. Nid oes angen bod yn athro/athrawes trwyddedig ar gyfer hyn a mae llawer o hwyl i'w gael wrth y gwaith.

Yn olaf, ydych chi yn adnabod rhywun sydd eisiau dysgu Cymraeg? Cyfeiriwch nhw atom ni ac anfonwn ninnau gopi o'r prospectws diweddaraf atyn nhw.

Mawr ddiolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

TIWTORIAID Y NANT.

O'R WASG

Y BARDD A GOLLWYD - COFIANT DAVID ELLIS. Alan Llwyd a Elwyn Edwards. Cofiant Bardd ifanc a ddiflannodd yn Salonica yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.
Barddas £13.00

BLODYN YR HAUL Emily Huws
Stori swynol i blant.
Gwasg Gomer. £3.95

BRENHINES Y NAGA
D.G. Merfyn Jones
Nofel gyffrous yn ymwneud â gwrthryfel ar y ffin rhwng India a Burma. Gwasg Gomer £3.95.

CANSEN Y CYMRY Marcel Williams
Nofel finiog, feiddgar yn y cyfnod pan oedd gormes y Welsh Not un dal yn realiti hunllefus.
Y Lolfa £4.95

BOD YN RHYDD
Harri Pritchard Jones
Nofel yn ymwneud â bywydau carcharor a'r deulu.
Gwasg Gomer £3.75

CYFRINACH WNCWL DANIEL
T Llew Jones a Dafydd Wyn Jones
Hanes hynod dau frawd o'r Ferwig ger Aberteifi a'i hen feddyginiaeth lysieuol at wella canser.
Gwasg Gomer £3.75.

TAFARNAU CYMRU
Gol. Elin Llwyd Morgan
Dros gant o dafarnau gorau Cymru.
Y Lolfa £4.95.

WEITHIAU'N DEG Edna Bonnell
Nofel ramant hanesyddol wedi ei leoli mewn pentref diwydiannol yn yr hen Sir Gaerfyrddin.
Christopher Davies £5.95

HOLI TAFOD ELÁI

Mae hyd a lled cyrsiau T.G.A.U. yn ymestyn i bob cyfeiriad erbyn hyn ac yn gynnar yn y flwyddyn newydd derbyniwyd holiadur gan Jamie Evans o Ysgol Gyfun Rhydfelen sy'n gwneud astudiaeth o'r laith Gymraeg yn Nhaf Elái yn ei chwrs Daeryddiaeth.

Teimlwyd y byddai atebion yr holiadur o ddiddordeb i holl ddarllenwyr Tafod Elái .

Pryd ddechreuwyd y papur?

Hydref 1985

Pam ddechreuwyd y papur a gan bwy?

Dechreuwyd y papur er mwyn dod â Chymry'r ardal yn fwy agos at ei gilydd ac i ledaenu'r defnydd o'r Gymraeg.

Daeth criw o Gymry'r ardal ynghyd mewn Cyfarfod Cyhoeddus ym Mehefin 1985 i drafod y posibilrwydd o gyhoeddi papur bro i Daf Elái yn debyg i'r Gloran yn ardal Treorci. Ffurfiwyd Pwyllgor i gychwyn y gwaith ac o fewn tri mis cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf.

Faint o bobl sy ar eich "tîm"?

Mae tîm y papur yn cynnwys y Bwrdd Golygyddol (11), y Gohebwyur Lleol (10) a'r Dosbarthwyr (15).

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol a chroesewir aelodau newydd i ymuno â'r tîm.

Faint o bobol sy'n derbyn y papur?

Dosberthir tua 700 o gopiau. Tybiwn fod tua 2000 o bobl yn gweld y papur yn rheolaidd.

At bwy mae'r papur wedi ei anelu?

Mae'r papur ar gyfer pawb sydd yn siarad a darllen Cymraeg yn Nhaf Elái. Nid yw wedi ei anelu at unrhyw un yn arbennig ond o'r rheidrwydd mae'n adlewyrchu syniadau y cyfranwyr.

Beth am erthygl neu stori gennych chi?

Pa fath o storïau sy'n berthnasol i'r Tafod?

Unrhyw beth sydd o ddiddordeb i Gymry'r cylch. Hanes y fro, newyddion lleol, erthyglau, y byd teledu, ffilmiau, roc ac yn y blaen.

Ydi hi'n fwy llwyddiannus nawr nag oedd hi?

Cwestiwn i'r darllenwyr i ateb. Mae'n anodd cadw amrywiaeth o erthyglau drwy'r amser ac mae'n amhosib plesio pawb!

Ydych chi'n gwneud elw o'r papur?

Na. Mae'r papur yn dibynnu ar nawdd o Gyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig. Mae gwerthiant a hysbysebion yn talu tua dwy ran o dair costau cynhyrchu'r papur.

Pa ran ydy'r papur yn chwarae yn natblygiad yr iaith yn Nhaf Elái?

Yn syml trwy ddarllen y papur mae pobl yn defnyddio'r iaith. Hefyd daw'r papur a newyddion am ddigwyddiau cymdeithasol. Drwy "Tudalen yr Ysgol" a Chystadlaethau Gŵyl Ddewi a Iolo Morgannwg rhoi'r cyfle i bobl ifanc i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Ydych chi wedi meddwl am roi tudalen cyfan i gigs a ballu i bobl ifanc cael darllen?

Ar un adeg fe fu colofn ar grŵpiau Cymraeg a byddwn wrth ein bodd i gael tudalen wedi ei ysgrifennu gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc.

Ydi'r papur yn ochri'n wleidyddol gyda un parti neu blaid? Ai chi yw llais Plaid Cymru yr ardal?

Nid yw tueddiadau gwleidyddol rhai o aelodau'r Bwrdd Golygyddol yn ddirgelwch! Yn anaml iawn y ceir erthyglau pleidiol yn y papur ac nid yw'r erthyglau hynny o reidrwydd yn ochru gyda unrhyw blaid arbennig. Ond mae Tafod Elái yn gryf ei gefnogaeth i ymgyrchoedd dros yr iaith Gymraeg.

Beth yw'ch ymateb i gwynion taw ond i bobl Pentyrch, Creigiau a Efail Isaf mae'r Tafod?

Dyma'r tro cyntaf i ni dderbyn y gwyn yma. Mae newyddion ardaloedd Tonyrefail a Phontypridd yn cael yr un sylw ac unrhyw ardal arall. Ein dymuniad yw cael mwy o ohebwyr lleol i ddod â newyddion o Lanharan, Pontyclun, Rhydfelen a phob cymuned yn Nhaf Elái.

Beth yw dyfodol y Tafod? A allwn ddisgwyl ymlaen at weld papur lliw bob pythefnos, os nad yn wythnosol?

Pwy a ŵyr?

Yn y tymor byr, ein bwriad yw ceisio gwella diwyg y papur drwy ddefnyddio laser printer i'w baratoi.

Mae dyfodol yr iaith Gymraeg yn yr ardal yn dibynnu ar y tô ifanc o ddisgyblion sydd yn gadael Ysgolion Rhydfelen a Llanhari. Mae Menter Taf Elái wedi ei sefydlu i gynyddu'r ymwybyddiaeth a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae dros 20% o ddisgyblion yr ardal yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. O fewn cenhedlaeth bydd dros 10,000 o bobl yn siarad Cymraeg yn Nhaf Elái.

Mae'r seiliau yn cael eu gosod ar gyfer dyfodol llewyrchus a lliwgar iawn i Tafod Elái a'r iaith Gymraeg.

Gofynnwch am Fil Ffôn yn Gymraeg

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Delyth Jones

YSGOL PONT SION NORTON

Llongyfarchiadau i dîm A pêl droed yr ysgol ar ennill y gystadleuaeth Urdd pump bob ochr. Fe gynhelir y rownd derfynol ym mis Mawrth.

Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm pêl rwyd ar ennill 7-3 yn erbyn Ysgol Maesycoed.

Fe aeth criw o blant Blwyddyn 6 ar gwrs i Ganolfan Ogwr yn ddiweddar lle cawsant dipyn o hwyl. A bu Blwyddyn 4 a 5 ar ymweliad â Llancaiach Fawr yng nghanol mis Ionawr fel rhan o'i project tymhorol.

CYDYMDEIMLAD

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Kherys - merch fach 5 oed o'r ysgol. Bu Kherys farw yn ei chwsg ar Ionawr 11fed. Mae plant yr ysgol i gyd yn cofio am ei gwyneb bach serchus. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i theulu yng Nglyncoch.

Cydymdeimlwn hefyd â Derek Stockley a'r teulu, Bod Awen, Coed y Cwm ar ôl iddo golli ei dad yn ddiweddar.

YSGOL EVAN JAMES

Llongyfarchiadau i Siân Wilcox a Hilary Williams sydd wedi eu penodi yn athrawon yn yr ysgol. Dymuniadau gorau i'r ddwy.

TAITH I WLAD Y LAP

Ysgrifennodd Daniel Marshman, 7 oed, at raglen Mici Plwm "Fe Hoffwn I" i ofyn os allai fynd i ymweld â Siôn Corn. Gwireddwyd ei freuddwyd ac fe gafodd fynd ar Ragfyr 6ed ac aros yno tan y 10fed. Cwmni'r Castell o Fae Colwyn oedd yn gwneud y rhaglen a Gaenor o Hafoc a Slot Sadwrn oedd y cyflwynydd.

Fe arhoson nhw noson yng Ngwesty Penta Heathrow yn Llundain ac yna hedfan ar y dydd Llun gyda Air Finland i Helsinki ac yna newid i awyren llai. Fe gyrhaeddon nhw prifddinas Gwlad y Lap, Rovaniemi am 5.30 a ffilmio dydd Mawrth a Mercher yn yr ardal.

Darlledwyd y rhaglen Nos Fawrth, Rhagfyr 29ain ar S4C.

PENNAU BACH

Llongyfarchiadau i Eirian Davies, athro yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, ar gyrraedd rownd terfynol y cwis radio Pennau Bach. Mewn brwydr glos daeth Eirian yn drydydd yn y rhaglen a ddarlledwyd dros y Nadolig.

Ad-lib



Tîm Ysgol Gyfun Rhydfelen - Iwan, Owen a Gwen

Bob dydd Mercher ar Slot 23 ar S4C mae cwis newydd sbon i blant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar y byd ffilmiau, theatr a theledu. Mae "Ad-lib" yn gyfuniad o gwis sydd yn profi gwybodaeth gyffredinol y cystadleuwyr am actorion, ffilmiau, rhaglenni teledu a llyfrau, ac hefyd yn weithdy drama.

Pob wythnos mae actorion proffesiynol yn cael gwahoddiad i ymuno â'r timau i greu sgets neu gyflwyniad byr ar destun arbennig.

Ar ddydd Mercher 24 Chwefror bydd tîm Ysgol Gyfun Rhydfelen yn cystadlu ac ar y 10fed o Fawrth bydd tîm Ysgol Gyfun Llanhari yn cystadlu yn yr ail rownd.

CYD PONTYPRIDD

Mudiad sy'n dod â Chymry Cymraeg a dysgwyr at eu gilydd yw CYD. Sefydlwyd cangen CYD Pontypridd ym mis Chwefror, ac mae gan y gangen dros saith deg o aelodau.

Trefnwyd dwy noson lwyddiannus iawn yn yr Hydref. Cynhaliwyd twmpath dawns ar Fedi 30. Roedd Goronwy Jones yn galw'r camau, a thua 70 o bobl yn bresennol. Cawsom hwyl arbennig Hydref 21, wrth fwynhau noson o ganu yng nghwmni Dafydd Idris. Dros y Nadolig trefnwyd Cinio ac yna Parti Gwisg ffansi a Disgo i ddechrau'r flwyddyn newydd.

Dyma'r rhaglen am 1993:

Chwefror 24: Noson o gemau gyda Siôn Meredith, Y Cyfarwyddwr Cenedlaethol.

Mawrth 31: Cyngerdd yng nghwmni Canwr gwadd.

Ebrill 28: Rownd Gyntaf y Cwis Cenedlaethol.

Mai 26: Ffair mudiadau Cymraeg.

Mehefin 30: Taith Gerdded.

Gorffennaf 28: Noson Lawen.

Cynhelir pob noson yng Nghlwb y Bont, Heol Taf, Pontypridd am 8.00 pm. Manylion pellach - 0443 229128.

CANGEN PLAID CYMRU PONTYPRIDD

HWYL CYN GÊM LLOEGR

Nos Wener, 5ed Chwefror

CLWB Y BONT, PONTYPRIDD

Cyfle i ennill tocyn i'r gêm.

Mynediad yn cynnwys bwyd £3.00

Os nad oes gennych docyn, dewch ii'r Clwb i weld y gêm - bydd y Clwb ar agor o 12 o'r gloch i 12 o'r gloch ar ddyd d Sadwrn, Chwefror 6ed.

DAU LYFR I'R WERIN

YN EI ELFEN
Bedwyr Lewis Jones

Colled drom oedd colli'r Athro ddiwedd yr haf hwn ac erys y bylchau ar ei ôl mewn sawl maes. Yr oedd fwyaf amlwg yn llygad y cyhoedd wrth drafod ystyron a tharddiad enwau lleoedd ac ymadroddion llafar yr iaith.

'Yn ei Elfen' — prin fod unrhyw raglen radio erioed wedi cael enw mor addas, oherwydd yr oedd ymdrin â geiriau, eu gwreiddiau, eu hystyron, a'u perthynas â'i gilydd yn ail natur i'w seren, yr Athro Bedwyr Lewis Jones. Cyfeiriai yn aml at 'athrylith yr iaith Gymraeg' wrth ddotio at ryw ddweud lliwgar neu enw tlws neu gyrhaeddgar. A mwynhâi ei gynulleidfa ei athrylith yntau, yr Athro, wrth iddo ei thywys hyd lwybrau anhyffordd tarddiadau enwau ac ymadroddion mewn dull mor gartrefol ac agos-at rywun.

STRAEON CELWYDD GOLAU
Casglwyd gan Arthur Tomos

Rydym i gyd yn adnabod rhywun sy'n galw ei chwid (hwyaid) yn wyddau. Nid dweud celwyddau y maen nhw debyg iawn, ond byw mewn gwlad ramantus, uwchlaw ein cymylau ni, lle mae popeth yn fwy na'r cyffredin, yn drymach, yn well, yn hyfrytach.

Yn y llyfr hwn cawn olwg ar rywfaint o 'athrylith yr iaith Gymraeg' trwy ei henwau a'i hymadroddion. Ac yn yr esboniadau cawn olwg ar athrylith yr Athro Bedwyr Lewis Jones i ddehongli ac egluro. Y mae'r cyfan yn rhan o'n cof ni am ysgolhaig annwyl y mae'r bwlch ar ei ôl yn ein synnu.

(Gwasg Carreg Gwalch; 128 tudalen; pris: £3.50)

Y mae ei 'dweud hi' yn hen grefft yn y Gymraeg. Roedd gan storïwyr yr hen chwedlau ddawn i ddal eu cynulleidfa a'u tywys dros fryn a phant eu dychymyg. Byth ers hynny, bu gennym lu o storïwyr gwerin fu'n enwog am eu dawn i adrodd straeon, gan roi tipyn o liw a rhamant iddynt. Daeth 'mystyn' yn gelfyddyd a chrewyd traddodiad y 'straeon celwydd golau'.

Yn y gyfrol hon, cawn gasgliad o'r straeon gorau o'r traddodiad arbennig hwn. Mae'n gyfrol unigryw, yn ffynnon o ddiddanwch pur i bawb sy'n hoffi clywed am anturiaethau ffantastig a fflachiadau o ddychymyg ffraeth. Mae rhai o gymeriadau enwog Charles Williams, y Parch. John Alun Roberts, Eirwyn Pontshân ac E. Llwyd Williams yma ynghyd â llu o gymeriadau eraill o bedwar cwr ein gwlad. Mae'r gyfrol hefyd yn dystiolaeth werthfawr fod y math hwn o storïwr dal yn fyw ac yn iach, ac yn dal i fystyn ei chwedlau.

(Gwasg Carreg Gwalch; 208 tud; pris: £3.95)

SNICHOD Y TAFOD

"SNICHOD Y TAFOD" - ar gyfer ein darllenwyr mwy deallus. Pôs geiriol ym mhob rhifyn.

Atebion i: Yr Hafod
1 Llys Gwynno
Creigiau

Atebion mis Rhagfyr:
1. HENAINT
2. HEN FFASIWN
3. AR I FYNY
4. BLAEN TROED
5. CEFN WRTH GEFN

RECORD

CM

DISG

TROTRO

TINGALING

WYDDOR CHI?

Nifer fwyaf o eiriau tair llythyren a throsodd gan gynnwys o leiaf un gair naw llythyren.
* *Rhaid defnyddio'r lythyren ganol ymhob gair.*
* *Dim geiriau Saesneg.*
* *Dim geiriau wedi eu treiglo.*

Geiriau i: *Yr Hafod*
1 Llys Gwynno
Creigiau

Gair naw llythyren
mis Rhagfyr - MEISTROLI

A	G	D
I	M	Th
O	Y	R